Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Twf Gwyrdd Cymru**

**DYDDIAD** **9 Hydref 2014**

**GAN** **Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**

Heddiw, rwy'n cyhoeddi fy bwriad i ddatblygu cronfa Twf Gwyrdd ar gyfer Cymru. Mae'r gronfa *Twf Gwyrdd Cymru* arfaethedig yn anelu at gynyddu a chyflymu prosiectau i sicrhau buddsoddi gwyrdd yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio yn bennaf, er nid yn unig, ar annog buddsoddi mewn defnyddio adnoddau'n effeithiol, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a phrosiectau gwastraff. Rwyf am i Twf Gwyrdd Cymru anfon neges gref am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu llwybr datblygu mwy cynaliadwy a chynhwysol ar gyfer Cymru, a'r camau yr ydym yn eu cymeryd nawr i gyfrannu at yr amcanion lles yr ydym yn deddfu ar eu cyfer ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Wrth wneud hynny, mae'n gwneud ein bwriad i gynyddu a chyflymu ein gallu i gyrraedd ein targedau ar gyfer y newid yn yr hinsawdd yn glir, a dyma yr hyn ydym am ganolbwyntio'n bennaf arno wrth ddiweddaru ein polisi newid hinsawdd.

Mae gennym y cyfle i adeiladu Cymru lewyrchus gyda defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol yn ganolog i hynny. Rwyf am i'n hadnoddau naturiol yrru'r newid i gymdeithas carbon isel, sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd, gan roi cymaint o fanteision â phosib, a manteision parhaus, i bobl a chymunedau ledled Cymru. Bydd costau'n gysylltiedig â hyn, ac fel y nodwyd yn yr adroddiadau IPCC diweddar, mae'r costau hyn yn cynyddu wrth inni aros cyn gweithredu. Mae angen inni weithredu nawr, gan adeiladu ar y buddsoddiad yr ydym eisoes yn ei wneud mewn meysydd fel atal llifogydd, rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd ynni domestig.

Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo £5 miliwn o'n dyraniad Trafodiadau Ariannol i ddatblygu Twf Gwyrdd Cymru. Byddaf yn defnyddio'r cyllid cychwynnol hwn i ganolbwyntio ar ddwy agwedd - datblygu prosiectau ymarferol y gellir buddsoddi ynddynt, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, a chreu dull o gyllido i ddod â buddsoddiad newydd i Gymru.

Byddaf yn cydweithio'n agos â'm cydweithwyr yn y Cabinet i sicrhau bod Twf Gwyrdd Cymru yn gwneud y gorau o'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Gymru. Byddaf yn cyflwyno cynigion mwy manwl ar ddechrau 2015.